SUSTAINABLE GWYNEDD GYNALADWY

cynorthwyo pobl i greu amgylchedd iach – helping people to make a healthier environment

Gwneud compost cartref – mae'n hawdd!
Home compost the easy way!

Compostio! Pam ddylwn i drafferthu?
Composting! Why should I bother?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ailgylchu eitemau fel papur newydd a chaniau erbyn hyn, ond byddai compostio yn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i domennydd ysbwriel o tua 30%. Mae'n ffordd wych o ailgylchu, oherwydd does dim angen cludo compost i rywle arall i'w brosesu cyn dechrau'i ddefnyddio.

Most people now recycle items such as newspapers and cans, but composting could reduce the waste we send to landfill by up to 30% – the best kind of recycling, as it becomes usable without being transported for further processing

Mae compost cartref yn wrtaith gwych i'ch gardd, ond mae claddu gwastraff organig mewn tomennydd ysbwriel yn creu problemau rif y gwlith fel cynhyrchu'r nwy tŷ gwydr, methane, a dŵr gwenwynig sy'n llygru'r pridd a dŵr tanddaearol.

Composting also provides rich fertiliser for your garden, whereas organic waste dumped in landfill stagnates producing methane, a greenhouse gas, and toxic run off which contaminates soil and groundwater.

Ie
croen llysiau
darnau o ffrwythau
bagiau te, gwaddod coffi
glaswellt, bonion planhigion
blodau wedi gwywo
lludw coed
plisgyn wyau
gwely cwningod
papur neu gerdyn
wedi ei grychu
neu ei falu'n fân

Yes
vegetable peelings
fruit scraps
tea, coffee
grass, stalks, flowers
wood ash (small amount)
egg shells
rabbit bedding
crumpled or shredded paper or card

Na
cig, pysgod, esgyrn
bwyd wedi'igoginio
olew a braster
plastig, gwydr, metel
planhigion heintiedig
baw ci neu gath

No
meat, fish, bones
cooked food
oils and fats
plastic, glass, metal
diseased plants
dog or cat faeces

Ydi gwneud compost yn anodd?
Composting is hard work, isn't it?

Un ffordd ddi-lol heb lawer o waith ydy casglu eich gwastraff llysiau amrwd, a'i daflu i fin compost di-waelod ar bridd glân hefo digon o bapur a cherdyn. Bydd pob dim yn y bin yn raddol bydru, hyd yn oed heb ichi wneud dim byd arall, ond gallwch gyflymu pethau drwy droi'r compost bob yn hyn a hyn.

Not if you use our simple, trouble free method! Just collect your kitchen raw vegetable waste and throw it into a bottomless bin placed on bare soil, with plenty of crumpled paper and card. Everything in the bin will slowly break down even if you do nothing else, but you can speed things up by turning the compost from time to time.

Os oes ganddoch chi awydd, gallwch ychwanegu pryfed genwair coch y domen sydd ar gael o siopau offer pysgota. (Peidiwch â defnyddio bwyd wedi'i goginio na chynnyrch anifeiliaid gan fod y rhain yn debygol o ddenu llygod ac ati.)

You can add little red brandling worms which you can buy from fishing tackle shops. (Avoid adding cooked food or animal products as these are more likely to attract pests).

Os ydy gwneud compost mor hawdd â hynny, pam bod pethau'n mynd o chwith mor aml?
If it's so simple, why does it often go wrong?

Mae'r creaduriaid bach sy'n gwneud i'r compost bydru angen aer a dŵr. Os ydy'ch compost yn cynnwys 50% o bapur a cherdyn wedi'u crychu, dylai hyn greu digon o bocedi o aer. Rhaid i'r compost fod yn llaith, ond heb fod yn wlyb socian.

It's important to get the right amount of air and water in your compost. You need to add at least 50% paper and card, and scrunch it up to create pockets of air. The compost should be moist but not sodden.

Sut fyddai'n gwybod fod y compost yn barod ac yn ddiogel?
How do I know when it's ready and safe to use?

Gallai gymryd rhwng ychydig o fisoedd a blwyddyn neu fwy i'r compost bydru drwyddo.
Ar y diwedd, bydd y compost yn edrych fel pridd tywyll mân, heb ddim o'r cynnwys gwreiddiol i'w weld o gwbl.

It can take from a few months to a year or more for compost to be made.
When finished it will look like a rich crumbly soil without a trace of its original contents, and it should be perfectly safe.

Be ydw i'n ei wneud efo'r compost?
What do I do with it?

Gallwch ei ddefnyddio dros wyneb y pridd i gadw lleithder ynddo, neu ei balu i mewn i'r pridd i wella ei ansawdd.

Use it as a mulch or dig it into the soil as a nutrient rich conditioner.

Ond mae fy ngardd i'n fach iawn!
But I only have a very small garden!

Does dim angen llawer o le i wneud compost, ac mae Cyngor Gwynedd yn cyflenwi biniau compost. Gallwch roi y compost i gymodogion sy'n garddio, neu, pam na wnewch chi sefydlu cynllun compostio cymunedol?

You do not need much space for composting. You can donate your finished compost to neighbouring gardeners or get together and start your own community composting scheme.
What's more, you can get a compost bin from Gwynedd Council.

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau ynglŷn â chompost, cewch lawer o linciau defnyddiol ar ein gwefan.
I gael manylion am finiau compost Cyngor Gwynedd, cysylltwch â'u Swyddog Ailgylchu ar **01286 679 872**.

If you have any more questions regarding compost, visit our website which links to other useful sites and more information.

For details about Gwynedd Council's compost bins, please contact their Recycling Officer on **01286 679 872**.

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth yma gan Sustainable Gwynedd Gynaladwy, mudiad gwirfoddol yn hyrwyddo egwyddorion cynaladwyedd yng Ngwynedd. Rhif ffôn 01766 512 300: post@gwyneddgynaladwy.org.uk. Ariannir y mudiad gan Cist Gwynedd, Cronfa Arbrofol Eryri a Galluogi Gwynedd.

This information sheet was produced by Sustainable Gwynedd Gynaladwy, a voluntary organisation promoting the principles of sustainability in Gwynedd. Telephone 01766 512 300: post@gwyneddgynaladwy.org.uk
This organisation is funded by Cist Gwynedd, Cronfa Arbrofol Eryri and Galluogi Gwynedd

www.gwyneddgynaladwy.org.uk